Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# LLYWODRAETH CYMRU – RHEOLEIDDIO TAI

# ADRODDIAD AR WERSI A DDYSGWYD

# CYMDEITHAS TAI CYMUNED CAERDYDD

# RHAGFYR 2018

## 1. Cyflwyniad

Yn sgil y problemau a gododd gyda Chymdeithas Tai Cymuned Caerdydd (y Gymdeithas), mae'r sector a'r Rheoleiddiwr wedi dysgu gwersi gwerthfawr. Roedd ymateb cyntaf y Gymdeithas wedi golygu bod y landlord cymdeithasol cofrestredig (LCC) a'r Rheoleiddiwr wedi canolbwyntio ar gadarnhau p'un a oedd problem yn bodoli ai peidio, yn hytrach nag ar yr hyn yr oedd angen ei wneud, sef mynd i'r afael â'r methiannau systemig. Gellid bod wedi osgoi oedi cyn ymchwilio i'r pryderon a mynd i'r afael â phroblemau difrifol drwy waith cydreoleiddio gwirioneddol. Rydym yn disgwyl y caiff pryderon a godwn gyda'r LCCau yn y dyfodol eu trin mewn ffordd gydweithredol. Os na fydd hyn yn digwydd, byddwn yn nodi bod yr ymateb ei hun yn bryder rheoleiddiol.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r problemau a gododd gyda'r Gymdeithas a'r gwersi a ddysgwyd, i'r sector a'r Rheoleiddiwr. Dylai byrddau ystyried y canfyddiadau hyn a gofyn iddynt eu hunain beth y gallant ei ddysgu a ph'un a yw eu trefniadau presennol yn ddigon cadarn i roi sicrwydd llawn. Efallai yr hoffent ystyried hefyd sut y byddent yn ymateb mewn amgylchiadau tebyg a beth fyddai eu hagwedd tuag at y Rheoleiddiwr. Mae'n ddefnyddiol ystyried yr adroddiad hwn ar y cyd â'n hadroddiad trosolwg o'r sector diweddar ar drefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid, sy'n seiliedig ar adroddiadau sicrwydd a ddarparwyd gan holl LCCau Cymru. Mae'r adroddiad i'w weld yma: Adroddiad Trefniadau Iechyd a Diogelwch Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Hydref 2018

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector i ddatblygu trefniadau mwy cadarn ac effeithiol ym maes llywodraethu a sicrwydd bwrdd, gan gynnwys mewn perthynas â threfniadau iechyd a diogelwch landlordiaid.

## 2. Cefndir

Mae Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd (y Gymdeithas) yn landlord cymdeithasol cofrestredig cymunedol, traddodiadol. Mae'r Gymdeithas yn gweithio yng Nghaerdydd, yn rheoli 2840 o gartrefi ac yn cyflogi tua 90 o aelodau staff.

Ym mis Medi 2017, cysylltodd chwythwr chwiban â'r tîm Rheoleiddio Tai gan godi pryderon ynghylch trefniadau rheoli contractau, caffael ac atgyweirio yn y Gymdeithas. Yn unol â'r weithdrefn chwythu'r chwiban, gofynnodd y tîm Rheoleiddio i'r Bwrdd gomisiynu adolygiad annibynnol er mwyn cadarnhau'r ffeithiau.

Cododd yr adolygiad annibynnol gwestiynau a phryderon eraill ynghylch prosesau atgyweirio, gan gynnwys blaenoriaethu gwaith atgyweirio sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch. Yna cynhaliwyd adolygiad annibynnol arall a chafodd yr adroddiad ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2018.

Roedd canfyddiadau'r adolygiadau annibynnol amrywiol, a'r gwendidau yn ymateb y Gymdeithas i'r materion difrifol a godwyd gan y Rheoleiddiwr, wedi arwain at ymyriad

rheoleiddiol. O ganlyniad, ymrwymodd y Gymdeithas i ymgymeriad gwirfoddol i fynd i'r afael â phryderon y Rheoleiddwyr ym mis Mawrth 2018.

Mae'r ymgymeriad gwirfoddol yn nodi'r camau y byddai'r Gymdeithas yn eu cymryd mewn ymateb i'r pryderon a oedd yn ymwneud, yn bennaf, ag ansawdd y canlynol:

- Sicrwydd bwrdd ar faterion iechyd a diogelwch yn ogystal â'r gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw;
- Y trefniadau llywodraethu a sicrwydd bwrdd;
- Rheoli risg;
- Dull cydreoleiddio.

Ym mis Chwefror 2018, comisiynodd Bwrdd y Gymdeithas ragor o adolygiadau gan nad oedd yn fodlon â chwmpas yr adolygiad cychwynnol. Cynhaliwyd yr adolygiadau hyn gan archwilwyr mewnol y Gymdeithas. Ar ôl trafod â'r Rheoleiddiwr, gwnaethant gytuno i weithredu'r argymhellion a'r camau gwella dilynol o fewn amserlen y cytunwyd arni. Ym mis Mawrth 2018, cafodd Dyfarniad Rheoleiddio ei gyhoeddi ar gyfer y Gymdeithas a oedd yn nodi bod angen ymyriad.

Yn ystod y chwe mis ar ôl y dyfarniad rheoleiddio, mae'r Gymdeithas wedi gwneud cynnydd da iawn i fynd i'r afael â'r pryderon – gan gynnwys y pryderon cychwynnol a'r rhai a godwyd gan yr adolygiadau dilynol.

## 3. Gwersi ac Argymhellion

Un o elfennau newydd y Fframwaith Rheoleiddiol diwygiedig, a lansiwyd ym mis Ionawr 2017, oedd y caiff gwersi a ddysgwyd o achosion lle dyfernir bod angen ymyrryd neu gymryd camau statudol, eu rhannu'n gyhoeddus.

Mae'r gwersi a'r argymhellion a gododd o achos y Gymdeithas yn adleisio'r argymhellion a wnaed yn sgil ein dadansoddiad o adroddiadau sicrwydd byrddau ar drefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018.

### Roedd ansawdd sicrwydd bwrdd y Gymdeithas yn wael iawn

Cyflwynwyd adroddiadau i'r Bwrdd ond nid oeddent yn rhoi sicrwydd ystyrlon oherwydd:

- Nid oedd aelodau'r Bwrdd yn aml yn deall goblygiadau'r data a gyflwynwyd;
- Nid oedd y Bwrdd yn herio'r darlun a gyflwynwyd yn yr adroddiadau'n ddigonol;
- Roedd y Bwrdd yn dibynnu gormod ar sicrwydd gan staff;
- Roedd adroddiadau'n canolbwyntio ar risgiau ariannol ac ni roddwyd digon o sylw i iechyd a diogelwch a risgiau pwysig eraill;

- Nid oedd y Bwrdd yn canolbwyntio digon ar drefniadau iechyd a diogelwch y landlord ac, o ganlyniad, nid oedd yn deall p'un a oedd y trefniadau a oedd ar waith yn ddigon cadarn i gadw'r tenantiaid yn ddiogel;
- Roedd geiriad yr adroddiadau'n aneglur ac yn ddiamwys wrth nodi risgiau.

**Argymhelliad 1**

*Mae angen i LCCau ddangos yn glir drefniadau llywodraethu ardderchog a sicrwydd cadarn i Fyrddau am effeithiolrwydd eu trefniadau iechyd a diogelwch fel landlordiaid a gallu dangos tystiolaeth bod Byrddau'n cymryd perchenogaeth dros berfformiad landlordiaid o ran iechyd a diogelwch.*

**Argymhelliad 2**

*Ym mhob rhan o'r busnes, rhaid i Fyrddau fabwysiadu dull gweithredu strwythuredig mewn perthynas â sicrwydd sy'n galluogi'r aelodau i ymddiried yn y wybodaeth a gânt a'i defnyddio i wneud penderfyniadau. Rhaid iddynt hefyd deimlo'n hyderus i gwestiynu / herio'r wybodaeth hon mewn ffordd adeiladol.*

**Argymhelliad 3**

*Rhaid i Fyrddau sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r profiad cyfunol i ddeall y data a'r adroddiadau a ddarperir yn llawn. Rhaid i Fyrddau allu nodi unrhyw fylchau o ran sgiliau a phrofiad a llenwi'r bylchau hynny'n hawdd ac yn gyflym.*

**Argymhelliad 4**

*Rhaid i Fyrddau feddwl yn feirniadol am yr adroddiadau a'r data a ddarperir gan sicrhau eu bod yn herio ac yn cwestiynu'r hyn a gyflwynir iddynt yn briodol.*

### Roedd y Gymdeithas yn dibynnu gormod ar ddata y canfuwyd yn ddiweddarach eu bod yn wallus ac yn anghywir

- Roedd y Bwrdd a'r uwch aelodau staff yn dibynnu ar y data a oedd yn cael eu cynhyrchu gan systemau mewnol y sefydliad, ond dangosodd gwaith craffu bod y data hyn yn wallus iawn. Er enghraifft, dangosodd gwaith craffu manwl fod nifer fawr o arolygiadau diogelwch trydanol heb eu cynnal;
- Nid oedd unrhyw un – y staff, y bwrdd na'r archwilwyr – wedi herio ansawdd y data nac wedi gofyn am ddilysu data hollbwysig.

**Argymhelliad 5**

*Dylai LCCau sicrhau eu hunain fod cywirdeb eu data/eu prosesau dilysu yn ddigon cadarn ac yn addas at y diben.*

**Argymhelliad 6**

*Dylai LCCau ystyried p'un a oes angen iddynt wneud rhagor er mwyn sicrhau cywirdeb data, e.e. drwy archwiliadau rheolaidd o gywirdeb data.*

**Argymhelliad 7**

*Dylai LCCau ystyried cael gwared ar systemau storio data/cydymffurfiaeth hawdd eu llygru ac a all arwain at ddata anghywir, er enghraifft taenlenni.*

**Argymhelliad 8**

*Dylai Byrddau LCCau ystyried p'un a ydynt wir yn deall goblygiadau'r data y maent yn eu hystyried.*

**Roedd Bwrdd y Gymdeithas yn dibynnu ar drefniadau archwilio mewnol nad oeddent yn ddigon cadarn**

Roedd y Bwrdd yn dibynnu ar archwilwyr mewnol i roi sicrwydd iddo ond nid oedd ganddo ddull gweithredu digon cadarn mewn perthynas â chwmpasu gwaith archwilio, rhoi rhaglenni archwilio ar waith nac ymateb i argymhellion archwilio.

- Cafodd archwiliadau mewnol allweddol eu gohirio dro ar ôl tro heb unrhyw her gan y Bwrdd;
- Cafodd camau gweithredu o archwiliadau mewnol a gwblhawyd eu gohirio dro ar ôl tro heb unrhyw her gan y Bwrdd;
- Nid oedd y Bwrdd bob amser yn deall yr adroddiadau archwilio mewnol a ddarparwyd iddo;
- Nid oedd gan aelodau'r Bwrdd ddealltwriaeth ddigon cadarn o gylch gwaith a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a'r Cadeirydd Archwilio, na'u cydberthynas â'r Bwrdd yn gyffredinol.

**Argymhelliad 9**

*Dylai LCCau ystyried p'un a yw amlder, cwmpas a chadernid eu harchwiliadau mewnol o'u trefniadau iechyd a diogelwch yn rhoi sicrwydd digonol iddynt.*

**Argymhelliad 10**

*Dylai aelodau byrddau sicrhau eu bod yn cael y cyfle i drafod adroddiadau archwilio mewnol a'u canfyddiadau'n uniongyrchol â'r archwilydd mewnol.*

**Argymhelliad 11**

*Dylai aelodau byrddau sicrhau eu bod yn gwybod yn glir am gylch gwaith a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a'r Cadeirydd Archwilio, a'u cydberthynas â'r Bwrdd yn gyffredinol.*

**Roedd diwylliant y Gymdeithas yn amhriodol ac yn afiach**

Roedd diwylliant y sefydliad, yn enwedig ymhlith uwch aelodau staff a'r Bwrdd, yn amhriodol ac yn afiach.

- Roedd y Bwrdd yn dibynnu gormod ar farn a dewisiadau ei dîm gweithredol hirsefydlog a oedd yn arwain at ddiffyg her;
- Roedd y gydberthynas bŵer rhwng y Bwrdd a'r tîm gweithredol yn anghytbwys ac yn anaeddfed;
- Nid oedd y Pwyllgor Archwilio yn darparu'r gwaith craffu manwl na'r her angenrheidiol;
- Roedd agwedd 'laissez faire', a oedd yn aml yn hunanfoddhaus, yn treiddio drwy waith y Bwrdd ac nid oedd gan yr aelodau fawr ddim dealltwriaeth wirioneddol o'u rôl fel arweinwyr.

**Argymhelliad 12**

*Dylai LCCau ystyried p'un a oes gan eu sefydliad ddiwylliant mewnol priodol a chadarn sy'n cefnogi rolau a chydberthnasau priodol a her adeiladol.*

**Nid ymatebodd y Gymdeithas yn briodol pan gododd y Rheoleiddiwr bryderon**

Nid ymatebodd y Gymdeithas yn briodol i bryderon a godwyd gan y Rheoleiddiwr.

- Yn hytrach na chanolbwyntio ar y materion difrifol a godwyd a'u datrys, canolbwyntiodd y Bwrdd a'r tîm gweithredol ar wadu'r problemau a cheisio gwrthbrofi eu bod yn bodoli. Arweiniodd hyn at oedi sylweddol cyn ymchwilio i'r pryderon a mynd i'r afael â'r materion difrifol;
- Roedd y Bwrdd yn teimlo bod angen cymryd ochr gan gefnogi'r tîm gweithredol yn erbyn y Rheoleiddiwr;
- Roedd hi'n amlwg nad oedd y Bwrdd yn deall ei rôl ei hun na rôl y Rheoleiddiwr pan gaiff pryderon difrifol eu codi. Ni chymerodd y Bwrdd gyfrifoldeb am fynd i'r afael â'r pryderon gan aros i'r Rheoleiddiwr ddweud wrtho beth i'w wneud a thrwy gydol y cyfnod hwn, gwadodd y Bwrdd bod unrhyw broblem yn bodoli;
- Methodd y sefydliad ag arddangos dull gweithredu cyd-reoleiddiol. Yn benodol, yn ei ymateb i faterion a oedd yn ymwneud â diogelwch tenantiaid, ni lwyddodd i gyflawni ei ymrwymiad hirsefydlog i ddiogelu buddiannau ei denantiaid nac ychwaith ei gyfrifoldebau cyfreithiol iddynt;
- Roedd y Bwrdd yn canolbwyntio gormod ar waith datblygu a mentrau newydd heb ganolbwyntio digon ar ei wasanaethau craidd.

**Argymhelliad 13**

*Pan gaiff pryderon difrifol eu codi, rhaid i'r LCCau a'r rheoleiddiwr weithio mewn ffordd gyd-reoleiddiol. Mae'n rhesymol gofyn am esboniad o unrhyw bryderon ond ni ddylai hyn gael effaith andwyol ar gynnydd unrhyw gamau i ymchwilio i faterion a'u datrys.*

**Argymhelliad 14**

*Mae angen i Fyrddau ddeall priod rolau'r LCC a'r Rheoleiddiwr pan fo problemau difrifol yn codi. Pan fo'r Rheoleiddiwr ynghlwm wrth achos, yr LCC sy'n gyfrifol o hyd am fynd i'r afael â'r pryderon yn gyflym ac yn briodol.*

**Argymhelliad 15**

*Ni ddylai Byrddau ganiatáu i waith datblygu a mentrau newydd ddominyddu eu hagendâu ar draul rhoi sylw i wasanaethau craidd.*

### Roedd angen cadarnhau dull gweithredu'r Rheoleiddiwr mewn perthynas â chwythu'r chwiban

Cafodd y materion a arweiniodd at yr ymyriad rheoleiddiol yn y Gymdeithas eu codi'n wreiddiol gan chwythwr chwiban. Gwyddom o brofiad rheoleiddwyr tai eraill y caiff pryderon eu codi'n aml iawn drwy weithdrefnau chwythu'r chwiban mewn amgylchedd rheoleiddiol aeddfed ac y bydd hyn yn parhau. Er mwyn sicrhau ymateb cyson a phriodol, rydym wedi datblygu gweithdrefn chwythu'r chwiban y mae'r Grŵp Cynghori ar Reoleiddio a Bwrdd Rheoleiddiol Cymru wedi cytuno arni. Mae'r weithdrefn i'w gweld ar ein gwefan – gweithdrefn chwythu'r chwiban

Fodd bynnag, gall cydreoleiddio effeithiol a rhoi gwybod am broblemau'n gynnar roi cyfle i gydweithio er mwyn atal materion rhag datblygu'n sefyllfa sy'n galw am chwythu'r chwiban, rhywbeth sydd o fudd i bob parti.

### Nid ystyriwyd bod y Gymdeithas yn sefydliad risg uchel cyn yr ymyriad rheoleiddiol hwn

Mae ein hymwneud â'r Gymdeithas ers tymor yr hydref 2017 wedi datgelu gwendidau sylweddol o ran llywodraethu a darparu gwasanaethau. Hyd at hynny, nid oedd y sefydliad yn sefydliad risg uchel o safbwynt rheoleiddiol. O ganlyniad, rydym wedi gofyn i ni ein hunain – gan edrych yn ôl, beth oedd yr arwyddion rhybudd y mae angen i ni, a'r sector, fod yn fwy ymwybodol ohonynt yn y dyfodol?

### Yn y dyfodol, mae angen i'r Rheoleiddiwr ddeall yr arwyddion rhybudd a newid y ffordd rydym yn gweithio er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y pethau cywir

Yn adran 4, rydym wedi nodi'r arwyddion rhybudd y byddwn yn eu defnyddio i ddatblygu ein dull gweithredol mewn perthynas â rheoleiddio yn y dyfodol.

adran 5, rydym wedi nodi beth rydym eisoes yn ei wneud yn wahanol o ganlyniad i'r gwersi a ddysgwyd o achos y Gymdeithas ac achosion cymhleth eraill.

Rydym yn cydnabod y bydd hon yn broses barhaus a bod angen i ni ddysgu a datblygu ein harferion rheoleiddio yn barhaus hefyd.

## 4. Arwyddion rhybudd

Bydd ymwybyddiaeth o'r arwyddion rhybudd yn helpu'r Rheoleiddiwr a'r sector i fod yn fwy effro yn y dyfodol.

**Problemau archwilio mewnol**

- Archwiliadau hwyr ac oedi cyn cymryd camau gweithredu ar ôl archwiliadau;
- Ymatebion amhriodol i adroddiadau archwilio mewnol;
- Iaith aneglur a diffyg naratif mewn adroddiadau archwilio mewnol;
- Rhaglenni archwilio mewnol a gaiff eu llywio gan y tîm gweithredol yn hytrach na'r Bwrdd ac sy'n canolbwyntio gormod ar risgiau ariannol heb roi digon o sylw i iechyd a diogelwch a risgiau pwysig eraill;
- Archwiliadau mewnol anaml nad ydynt wedi'u cwmpasu'n ddigonol;
- Methiant gan y bwrdd i gwestiynu canfyddiadau adroddiadau archwilio mewnol; argymhellion ac ymatebion staff.

**Diffyg ffocws ar gywirdeb / dibynadwyedd data**

- Dim sicrwydd o ran cywirdeb data;
- Defnyddio nifer o systemau digyswllt i gasglu data;
- Defnyddio systemau annibynadwy i gasglu data e.e. mwy nag un daenlen.

**Trefniadau llywodraethu o ansawdd gwael**

Efallai na fydd hyn yn broblem fawr o dan amgylchiadau cyffredin ond maent yn debygol o fethu pan gânt eu profi.

- Bwrdd yn dibynnu gormod ar sicrwydd gan y tîm gweithredol;
- Cydberthnasau amhriodol rhwng y Bwrdd a'r tîm gweithredol ac anghydbwysedd pŵer posibl am fod tîm gweithredol hirsefydlog wedi recriwtio aelodau bwrdd a swyddogion hirsefydlog;
- Diffyg hyfforddiant bwrdd ac ymgysylltiad allanol;
- Dim adolygiad diweddar, cadarn a chredadwy o drefniadau llywodraethu;
- Diffyg profiad ym maes tai a diffyg profiad o redeg sefydliad ymhlith aelodau'r bwrdd;
- Mae'r bwrdd yn canolbwyntio ar waith datblygu a mentrau newydd cyffrous yn lle canolbwyntio ar wasanaethau tai craidd.

## 5. Beth mae'r Rheoleiddiwr yn ei wneud yn wahanol

Beth mae'r Rheoleiddiwr yn ei wneud yn wahanol o ganlyniad i'n profiad gyda'r Gymdeithas?

### Rydym wrthi'n canolbwyntio ar risgiau iechyd a diogelwch ac yn gofyn am sicrwydd penodol

Rydym yn canolbwyntio mwy ar risgiau iechyd a diogelwch. Rydym eisoes wedi gofyn am adroddiadau sicrwydd gan bob LCC. Rydym wedi dadansoddi'r rhain ac wedi cyhoeddi themâu allweddol a nifer o argymhellion i'w gweithredu. Byddwn yn trafod yr adroddiadau sicrwydd â'r LCCau yn unigol ac yn gofyn am sicrwydd bod camau gwella'n cael eu cymryd.

Mae difrifoldeb y materion dan sylw – iechyd a diogelwch tenantiaid – wedi ein hysgogi i roi'r gorau i'n dull gweithredu arferol a gofyn am adroddiadau sicrwydd penodol gan Fyrddau, gan roi'r cyfrifoldeb ar y sefydliad i ddangos ei fod yn gweithredu mewn ffordd gadarn.

Byddwn yn cymryd camau rheoleiddiol os na all sefydliadau ddarparu'r sicrwydd sydd ei angen arnom neu os ydym wedi nodi pryderon difrifol o ran iechyd a diogelwch.

Yn y dyfodol, os bydd materion difrifol eraill yn codi, neu os byddwn yn dewis canolbwyntio ar feysydd penodol, efallai y byddwn yn gofyn am sicrwydd penodol unwaith eto.

### Byddwn yn gweithredu os bydd ymateb y bwrdd, pan fyddwn yn codi pryderon rheoleiddiol, yn amhriodol

Byddwn yn ymateb yn gyflym ac yn bendant os bydd Byrddau'n ymateb yn amhriodol pan fyddwn yn codi pryderon rheoleiddiol. Os bydd Byrddau'n ymateb drwy wadu, gwrthwynebu neu wneud cwynion, byddwn yn nodi bod yr ymateb ei hun yn bryder rheoleiddiol, a fydd yn ysgogi adolygiad ehangach o ansawdd trefniadau llywodraethu'r sefydliad ac, o bosibl, newid yn ei statws rheoleiddiol.

### Bydd ein ffocws ar drefniadau llywodraethu yn ehangu i ystyried ymatebion llywodraethu tebygol o dan bwysau

Rydym yn newid ein ffocws ar drefniadau llywodraethu i ystyried yr arwyddion rhybudd a nodwyd gennym. Byddwn nawr yn ystyried p'un a yw trefniadau llywodraethu yn ddigon cadarn i weithredu'n briodol pan gânt eu profi o ddifrif, h.y. y tu hwnt i weithgarwch dyddiol arferol.

**Byddwn yn gweithio gyda'r sector i sicrhau safonau uwch o ran sicrwydd bwrdd yn gyffredinol**

Rydym eisoes yn canolbwyntio ar sicrwydd bwrdd ac mae ein profiad gyda'r Gymdeithas wedi cadarnhau'r ffocws hanfodol hwn. Rydym yn gweithio gyda'r sector er mwyn helpu i wella trefniadau o ran sicrwydd bwrdd ac mae hyn yn ffocws allweddol ar gyfer ein trosolwg rheoleiddiol. Yn benodol, rydym wedi canolbwyntio mwy ar y sicrwydd sy'n sail i ddatganiadau cydymffurfio blynyddol (Datganiad Sicrwydd Blynyddol y Bwrdd). Mae angen i fyrddau ddeall eu cyfrifoldeb am sicrhau bod ganddynt dystiolaeth gadarn i brofi cywirdeb y datganiadau hynny.

**Byddwn yn cyfarfod ag archwilwyr mewnol**

Mae archwilio mewnol yn elfen allweddol o'r sicrwydd a roddir i fyrddau. Rydym yn bwriadu cyfarfod â'r cwmnïau archwilio mewnol sy'n gweithio gyda'r sector er mwyn trafod y materion a godwyd gan y Gymdeithas ynghylch cwmpasu gwaith archwilio, ei gyflawni ac ymateb i argymhellion a'r ffordd y mae archwilwyr mewnol yn ymateb pan na chaiff camau eu cymryd mewn ymateb i faterion difrifol a nodir ganddynt.

**Rydym yn ystyried sut i gefnogi byrddau pan fydd pethau'n mynd o chwith**

Rydym hefyd wedi dysgu gwersi o ran y ffordd rydym yn ymateb i faterion anodd sy'n codi mewn perthynas â LCCau. Mae'n amlwg nad yw ein harfer safonol o chwilio am unigolion cyfetholedig profiadol i gefnogi Byrddau pan fo materion yn codi, yn ddigon i helpu i ddatrys materion anodd ac y gall roi baich sylweddol ar y rhai sy'n gwirfoddoli i gael eu cyfethol. Rydym yn ailystyried ein dull gweithredu, gan gynnwys annog Byrddau i chwilio am y cymorth gweithredol a dwys sydd ei angen arnynt pan fo pethau'n mynd o chwith. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys cyflogi cynghorydd bwrdd annibynnol, yn enwedig pan fo'r materion dan sylw yn cyfyngu ar allu'r tîm gweithredol i gefnogi'r Bwrdd.

**Byddwn yn gweithredu'n gyflym i ddatrys materion rheoleiddiol pan fyddant yn codi**

Wrth edrych yn ôl, roedd hi wedi cymryd gormod o amser i ddatrys y pryderon difrifol yn y Gymdeithas. Yn y dyfodol, byddwn yn ymateb yn gyflym i ymddygiad o'r fath gan Fyrddau ac yn sicrhau mai mynd i'r afael â'r problemau yw'r prif ffocws.

**Byddwn yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu hysbysiad "dan adolygiad"**

Mae ein profiad yn y Gymdeithas wedi cadarnhau ei bod hi'n bwysig parhau i drafod â'r sector er mwyn datblygu system debyg i'r system hysbysiadau dan adolygiad yng Nghymru. Rydym yn sector bach mewn gwlad fach. Roedd sïon ar led bod problemau yn y Gymdeithas sawl wythnos cyn i ni gyhoeddi ein dyfarniad. Er mwyn sicrhau eglurder a thryloywder, mae angen i'r Fframwaith Rheoleiddiol wneud darpariaeth i nodi'n gyhoeddus achosion lle ceir materion sy'n arwain at ddyfarniad rheoleiddiol a allai gael ei newid.

**Rydym yn gweithio gyda Cartrefi Cymunedol Cymru i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o achos y Gymdeithas yn cael eu hystyried fel rhan o'i waith ar reolau enghreifftiol**

Yn achos y Gymdeithas, roedd newid i'r rheolau wedi golygu nad oedd modd cyfethol unigolion i'r bwrdd. Roedd hyn wedi ei gwneud hi'n anodd sicrhau'r cymorth yr oedd ei angen ar y Bwrdd ac wedi achosi cymhlethdodau ac oedi cyn gwneud y newidiadau angenrheidiol i gyfansoddiad y Bwrdd.

## Atodiad A - Argymhellion

**Argymhelliad 1**

*Mae angen i LCCau ddangos yn glir drefniadau llywodraethu ardderchog a sicrwydd cadarn i Fyrddau am effeithiolrwydd eu trefniadau iechyd a diogelwch fel landlordiaid a gallu dangos tystiolaeth bod Byrddau'n cymryd perchenogaeth dros berfformiad landlordiaid o ran iechyd a diogelwch.*

**Argymhelliad 2**

*Ym mhob rhan o'r busnes, rhaid i Fyrddau fabwysiadu dull gweithredu strwythuredig mewn perthynas â sicrwydd sy'n galluogi'r aelodau i ymddiried yn y wybodaeth a gânt a'i defnyddio i wneud penderfyniadau. Rhaid iddynt hefyd deimlo'n hyderus i gwestiynu / herio'r wybodaeth hon mewn ffordd adeiladol.*

**Argymhelliad 3**

*Rhaid i Fyrddau sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r profiad cyfunol i ddeall y data a'r adroddiadau a ddarperir yn llawn. Rhaid i Fyrddau allu nodi unrhyw fylchau o ran sgiliau a phrofiad a llenwi'r bylchau hynny'n hawdd ac yn gyflym.*

**Argymhelliad 4**

*Rhaid i Fyrddau feddwl yn feirniadol am yr adroddiadau a'r data a ddarperir gan sicrhau eu bod yn herio ac yn cwestiynu'r hyn a gyflwynir iddynt yn briodol.*

**Argymhelliad 5**

*Dylai LCCau sicrhau eu hunain fod cywirdeb eu data/eu prosesau dilysu yn ddigon cadarn ac yn addas at y diben.*

**Argymhelliad 6**

*Dylai LCCau ystyried p'un a oes angen iddynt wneud rhagor er mwyn sicrhau cywirdeb data, e.e. drwy archwiliadau rheolaidd o gywirdeb data.*

**Argymhelliad 7**

*Dylai LCCau ystyried cael gwared ar systemau storio data/cydymffurfiaeth hawdd eu llygru ac a all arwain at ddata anghywir, er enghraifft taenlenni.*

**Argymhelliad 8**

*Dylai Byrddau LCCau ystyried p'un a ydynt wir yn deall goblygiadau'r data y maent yn eu hystyried.*

**Argymhelliad 9**

*Dylai LCCau ystyried p'un a yw amlder, cwmpas a chadernid eu harchwiliadau mewnol o'u trefniadau iechyd a diogelwch yn rhoi sicrwydd digonol iddynt.*

**Argymhelliad 10**

*Dylai aelodau byrddau sicrhau eu bod yn cael y cyfle i drafod adroddiadau archwilio mewnol a'u canfyddiadau'n uniongyrchol â'r archwilydd mewnol.*

**Argymhelliad 11**

*Dylai aelodau byrddau sicrhau eu bod yn gwybod yn glir am gylch gwaith a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a'r Cadeirydd Archwilio, a'u cydberthynas â'r Bwrdd yn gyffredinol.*

**Argymhelliad 12**

*Dylai LCCau ystyried p'un a oes gan eu sefydliad ddiwylliant mewnol priodol a chadarn sy'n cefnogi rolau a chydberthnasau priodol a her adeiladol.*

**Argymhelliad 13**

*Pan gaiff pryderon difrifol eu codi, rhaid i'r LCCau a'r rheoleiddiwr weithio mewn ffordd gyd-reoleiddiol. Mae'n rhesymol gofyn am esboniad o unrhyw bryderon ond ni ddylai hyn gael effaith andwyol ar gynnydd unrhyw gamau i ymchwilio i faterion a'u datrys.*

**Argymhelliad 14**

*Mae angen i Fyrddau ddeall priod rolau'r LCC a'r Rheoleiddiwr pan fo problemau difrifol yn codi.  Pan fo'r Rheoleiddiwr ynghlwm wrth achos, yr LCC sy'n gyfrifol o hyd am fynd i'r afael â'r pryderon yn gyflym ac yn briodol.*

**Argymhelliad 15**

*Ni ddylai Byrddau ganiatáu i waith datblygu a mentrau newydd ddominyddu eu hagendâu ar draul rhoi sylw i wasanaethau craidd.*